**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 7 IONAWR 2021 DYDD IAU, 7 IONAWR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
J. Hill
K. Pritchard
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS IONAWR 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **GWYBODAETH PERFFORMIAD CHWARTER 2: GORFFENNAF – MEDI 2020**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau am yr adroddiad a nododd fod y Cyngor wedi penderfynu ar **100%** o'r holl geisiadau yn ystod Chwarter 2. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru o 80%. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr amser rhwng cofrestru a'r Pwyllgor yn gyfartaledd o 85 diwrnod o gymharu â chyfartaledd Cymru o 94 diwrnod. Dywedodd ymhellach y cafodd 0% o benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio eu cymeradwyo yn groes i argymhelliad y swyddog.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y cynhaliwyd dau Bwyllgor yn ystod Chwarter 2 a dywedodd fod cyfarfodydd rhithiol yn dal i gael eu sefydlu ar draws pob Cyngor yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd D. Wilkshire â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Canmolodd yr Is-gadeirydd y Rheolwr Gwasanaeth a'i Dîm ar eu perfformiad. Secondiwyd nifer o swyddogion o'r Tîm yn ystod y cyfnod hwn i ddelio gyda'r ymateb argyfwng ac felly croesawyd y ffigurau hyn. Teimlai'r Is-gadeirydd fod y perfformiad yn dangos gwerth am arian am y gwasanaeth a roddwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunodd y Pwyllgor gyda'r sylwadau a wnaed a llongyfarchodd y Rheolwr Gwasanaeth a'i Dîm ar eu perfformiad.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 6** | **<u>DIWEDDARIAD APÊL CYNLLUNIO: PARC SOLAR 30MW YN FFERM WAUNTYSWG, RHYMNI, TREDEGAR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau am yr adroddiad a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am benderfyniad yr Arolygiaeth Cynllunio yng nghyswllt apêl cynllunio yn erbyn gwrthod caniatâd i ymestyn oes weithredol y cynnig am barc solar 30MW yn Fferm Wauntyswg o 30 i 40 mlynedd (Cyf: C/2019/0280). Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020 pan benderfynwyd gwrthod caniatâd cynllunio yn groes i gyngor swyddog a dirprwyo awdurdod i swyddogion i gyhoeddi rheswm dros wrthod. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod yr ymgeisydd hefyd wedi gwneud cais am gostau i'r Cyngor yn dilyn apêl i'r Arolygiaeth Cynllunio.<br><br>Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth benderfyniad yr apêl a ganiatawyd gan yr Arolygiaeth Cynllunio ac roedd hefyd wedi dyfarnu costau llawn i'r apeliwr.<br><br>Nododd Aelod fod y Gweinidog wedi gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol a bod yr Arolygydd yn awr wedi gosod 10 mlynedd bellach. Teimlai yr Aelod y cafodd democratiaeth lleol ei wrthdroi ac mae Cyngor Tref Tredegar fel ymgyngoreion statudol wedi ysgrifennu at y Gweinidog i gofnodi eu siom am y penderfyniad.<br><br>Teimlai Aelod arall y gellid ymestyn y parc solar ymhellach ar ddiwedd y cyfnod a gytunwyd. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth y gallai'r datblygwr wneud cais i amrywio amodau'r caniatâd ar unrhyw amser. Cododd Aelodau bryderon bellach am dôn adroddiad yr Arolygydd a gofynnodd pa wybodaeth a gafodd yr Arolygiaeth Cynllunio gan efallai nad yw'r cofnodion yn adlewyrchu'r drafodaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y caiff adroddiadau, papurau cefndir, cofnodion ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig i gyd eu darparu i'r Arolygiaeth Cynllunio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth yn gysylltiedig â'r apêl a nodi'r penderfyniadau cost ar gyfer cais cynllunio C/2019/2080 fel y'i rhoddir yn Atodiad 1. | |
| **No. 7** | **<u>MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH/HYFFORDDIANT AELODAU</u>**<br><br>Cytunwyd ceisio sicrhau hyfforddiant yng nghyswllt arwyddion mewn ardaloedd cadwraeth.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd B. Thomas y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 8** | **<u>APÊL CYNLLUNIO: FFERM SOLAR YN WAUNTYSWG, TREDEGAR</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 a 17, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau yn fanwl am yr adroddiad ac amlinellu'r pwyntiau allweddol ynddo. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at yr opsiynau i gael eu hystyried a gafodd eu trafod yn faith ynghyd â'r adroddiad.<br><br>Yn dilyn trafodaethau<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n ymwneud â gwybodaeth yn gysylltiedig â hawliad i fraint broffesiynol gyfreithiol y gellid ei chadw mewn trafodiadau cyfreithiol a gwybodaeth a fyddai, pe byddai'n cael ei datgelu i'r cyhoedd, yn dangos bod yr Awdurdod yn cynnig: | |

| | | |
|---|---|---|
| | a) Rhoi hysbysiad dan unrhyw ddeddfiad y caiff gofynion eu gosod ar berson oddi tani neu yn ei sgil; neu<br>b) Wneud gorchymyn neu gyfarwyddyd dan unrhyw ddeddfiad<br><br>a chytuno ar opsiwn 1 a 2, sef anfon penderfyniad yr Arolygydd gyda gohebiaeth gefnogi i'r Gweinidog ar ran y Pwyllgor Cynllunio. | |